




Paent



CAMAU DATBLYGU- CYMYSGU LLIWIAU (1)

DISGRIFIAD O'R CAMAU

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU

Cael profiad o gymysgu lliwiau sylfaenol (coch, glas, melyn), du a gwyn.

Oedolyn - Rhoi cyfle i'r plentyn archwilio effaith cymysgu paent. Pan fo'n briodol, trafod y newidiadau yn y lliwiau.

Adnoddau - Paent coch, melyn, glas, du a gwyn, papur gwyn ar fyrddau ac îsls, brwshys.



Cael profiad o gymysgu dau liw sylfaenol, du a gwyn.

Oedolyn - Annog y plentyn i archwilio. Tynnu sylw at y canlyniad.

Adnoddau - I archwilio'r cam hwn yn eu datblygiad, gweler 'syniadau ar gyfer gweithgareddau â phaent'.



Archwilio sut y mae liw cefndir yn effeithio ar liw.

Oedolyn - Rhoi cyfleoedd i'r plentyn archwilio effaith cefndiroedd liw ar liw paent. Pan fo'n briodol, trafod y newidiadau yn y lliwiau.


Adnoddau - Paent coch, melyn, glas, du a gwyn, papur gwyn ar fyrddau ac îsls, brwshys.



Paratoi ei balet ei hun gan ddefnyddio paent parod ac yn cymysgu lliwiau.

Oedolyn - Dangos sut i gymysgu lliwiau gan ddefnyddio paent parod mewn palet. Trafod y canlyniad.

Adnoddau - Palet paent, paent parod, brwshys.



Paratoi ei balet ei hun gan ddefnyddio paent powdr ac yn cymysgu lliwiau.

Oedolyn - Dangos sut i gymysgu paent powdr mewn palet. Trafod y canlyniad.

Adnoddau - Palet, paent powdr mewn potiau bach, te, sgwpiâu, dŵr, pipedau, brwshys.



CAMAU DATBLYGU—CYMYSGU PAENT (2)

DISGRIFIAD O'R CAMAU

Gwybod pa liw sylfaenol sy'n gwneud lliwiau eilaidd.

Oedolyn - Dangos sut i wneud olwyn o liwiau sylfaenol ac eilaidd.
Adnoddau - Paent, brwshys, plât, dŵr.



Gwybod sut i wneud lliwiau'n oleuach ac yn dywyllach.

Oedolyn - Dangos sut i gymysgu arlliwiau gan ddechrau gyda'r lliw goleuaf ac ychwanegu'r lliw tywyllaf bob yn dipyn.
Adnoddau - Cardiau arlliw, paent mewn lliwiau sylfaenol, paent du neu wyn, papur, brwshys.
D.S. Arlliwio = goleuach
Cysgodi = tywyllach



Trafod sut y mae artistiaid eraill yn defnyddio paent.
(Y Cwricwlwm Cymreig)

Oedolyn - Annog y plentyn i **drafod** gan ganolbwyntio ar y modd y mae artistiaid eraill yn defnyddio paent
Adnoddau - Enghreifftiau o waith artistiaid (gan gynnwys artistiaid o Gymru) - i'w cael gan y Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion, delweddau oddi ar y rhyngrwyd, llyfrau celf a.y.y.b.



Delwedd gan Gwen John

CAMAU DATBLYGU—DEFNYDDIO PAENT A BRWSHYS (1)

DISGRIFIAD O'R CAMAU

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU

Archwilio paent gan ddefnyddio dwylo a bysedd.

Oedolyn - Annog y plentyn i archwilio paent. Pan fo'n briodol, trafod sut y mae'n teimlo, yn edrych ac yn arogl (cysylltiad paent â'r synhwyrâu).


Adnoddau - Paent trwchus, taflenni wedi'u lamineiddio, byrddau y gellir eu sychu, hambyrddau, platiau plastig plaen mawr a.y.y.b.



Defnyddio paent gan ddefnyddio dwylo a bysedd.

Oedolyn - Annog y plentyn i beintio i greu darn o waith gwreiddiol.


Adnoddau - Paent trwchus, papur trwchus, canfas a.y.y.b.



Archwilio sut i wneud marciau â brwsh.

Oedolyn - Annog y plentyn i wneud marciau. Dangos sut, os bydd angen.


Adnoddau - Paent trwchus, brwshys blew llydan â choes fer, darnau mawr o bapur, îsl/bwrdd.



Llwytho paent ar frwsh ac yn ei drosglwyddo i arwyneb.

Oedolyn - Dangos sut i sychu'r paent dros ben ar y palet/pot. Ymyrryd yn sensitif pan fo angen.


Adnoddau - Paent, brwsh, pot/palet.



Archwilio sut i ddefnyddio amrywiaeth o frwshys.

Oedolyn - Annog y plentyn i wneud marciau gan ddefnyddio brwshys gwahanol.

Adnoddau - Amrywiaeth o frwshys confensiynol e.e. trwch a gwaed gwahanol.




CAMAU DATBLYGU—DEFNYDDIO PAENT A BRWSHYS (2)

DISGRIFIAD O'R CAMAU

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU

Golchi a chadw brwshys.

Oedolyn - Dangos sut i olchi a chadw'r brwshys.
Adnoddau - Dŵr glân (ei newid yn aml).




Defnyddio amrywiaeth o frwshys â rheolaeth gynyddol.

Oedolyn - Annog y plentyn i ddefnyddio paent un lliw a gwahanol frwshys i arbrofi wrth wneud marciau.
Adnoddau - Amrywiaeth o frwshys (confensiynol ac anghonfensiynol) paent mewn un lliw, papur.
Gweler 'syniadau ar gyfer gweithgareddau â phaent'.




Archwilio amrywiaeth gynyddol o baent.

Oedolyn - Dangos sut i ddefnyddio amrywiaeth o baent.
Adnoddau -
Paent parod → paent bloc → dyfrlliw → paent acrylic
Brwshys, dŵr, papur
Gweler 'syniadau ar gyfer gweithgareddau â phaent'.



Defnyddio amrywiaeth o baent a brwshys â rheolaeth gynyddol.

Oedolyn - Annog y plentyn i ddewis ei adnoddau ei hun.
Adnoddau - Y plentyn i ddewis o'r amrywiaeth o frwshys a phaent a gyflwynwyd cynt.



Trafod sut y mae artistiaid eraill yn defnyddio paent.
(Y Cwricwlwm Cymreig)

Oedolyn - Annog y plentyn i drafod gan ganolbwyntio ar y modd y mae artistiaid eraill yn defnyddio paent.
Adnoddau - Enghreifftiau o waith artistiaid (gan gynnwys artistiaid o Gymru) - i'w cael gan y Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion, delweddau oddi ar y rhyngwrdd, llyfrau celf a.y.y.b.



Delwedd by Kyffin Williams

DATBLYGU ANNIBYNNIAETH (1)

Mae nifer o gamau i'r broses o fod yn annibynnol, ac ni fyddant, o reidrwydd, yn ddilyniannol.
Mae modd newid trefn y datganiadau isod.

DISGRIFIAD O'R CAMAU

Dewis ffedog a'i gwisgo gyda chymorth, os oes angen. Yn tynnu'r ffedog ac yn ei chadw yn y lle priodol.

Oedolyn - Atgoffa'r plentyn i ddefnyddio ffedog ac i'w chadw wedyn. Annog y plentyn i fod yn fwyfwy annibynnol.
Adnoddau - Ffedogau'n hongian lle gall y plentyn eu cyrraedd, yn agos at yr ardal beintio (defnyddiwch ffedogau gwahanol i chwarae â dŵr a.y.y.b.).



Golchi a sychu dwylo.

Oedolyn - Dangos a chynorthwyo'r plentyn i olchi dwylo'n drylwyr.
Adnoddau - Dŵr, sebon, sychwr dwylo/tyweli papur.



Dewis papur cyn peintio. Yn gosod y gwaith gorffenedig yn y man sychu.

Oedolyn - Dangos sut i ddewis a chario'r papur, ei osod ar y bwrdd neu'r îsl ac yna'i symud i'r man sychu. Yn annog y plentyn i fod yn fwyfwy annibynnol.
Adnoddau - Lle hygyrch i gadw'r papur, a lle penodol i'r gwaith sychu.



Cadw'r brwsh yn y pot cywir ar ôl ei ddefnyddio.
(Cam yn ystod cyfnod cynharaf datblygiad y plentyn pan ddefnyddir potiau â chaeadau sy'n cyd-fynd â lliw'r paent.)

Oedolyn - Dangos ac atgoffa. Tynnu sylw'r plentyn at y gwahanol liwiau.
Adnoddau - Paent mewn potiau sydd â chaead o'r un lliw, brwsh ar gyfer pob pot.



Peintio

DATBLYGU ANNIBYNIAETH (2)

Mae nifer o gamau i'r broses o fod yn annibynnol, ac ni fyddant, o reidrwydd, yn ddilyniannol.
Mae modd newid trefn y datganiadau isod.

DISGRIFIAD O'R CAMAU

Golchi'r brwsh cyn defnyddio lliw arall ac ar ôl gorffen peintio. Cadw'r brwsh yn y lle iawn.

Oedolyn - Dangos sut i olchi'r brwsh a sychu'r dŵr dros ben ar ymyl y pot dŵr/tywel papur. Dangos sut i dacluso'r blew ac i gadw'r brwsh â'r blew ar i fyny.
Adnoddau - Gwahanol liwiau a mathau o baent, pot dŵr, brwshys a chynhwysydd i'w cadw.



Gadael y lle'n lân ar ôl gorffen.

Oedolyn - Dangos sut i sychu, ysgubo a golchi'r llawr i baratoi ar gyfer y plentyn nesaf.
Adnoddau - Dŵr, cadachau, cynhwysydd i'w cadw, mop a brwsh â choesau byr, bwced mop, tywel papur, brwsh bach a rhaw.



Paratoi palet o baent parod.

Oedolyn - Dangos sut i wasgu paent o fewn cylch penodol.
Adnoddau - Palet wedi'i farcio'n barhaol â chylchoedd maint dwy geiniog, paent parod.



Paratoi palet o baent powdr.

Oedolyn - Dangos sut i godi'r paent â sgwbiau i'r palet ac ychwanegu dŵr bob yn dipyn nes bod ansawdd y paent yn iawn.
Adnoddau - Palet, paent powdr, sgôp, brwsh, dŵr, piped.



CAMAU DATBLYGU—PRINTIO (1)

DISGRIFIAD O'R CAMAU

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU

Gwneud printiau â dwylo.

Oedolyn - Dangos sut i wneud print â llaw.

Adnoddau - Paent trwchus mewn un lliw, cynhwysydd bas (a/heb bad sbwng), papur.



Gwneud printiau heb boeni llawer am y canlyniad.

Oedolyn - Annog y plentyn i archwilio printio â dewis cyfyngedig o wrthrychau y gellir printio'n foddhaol â nhw.

Adnoddau - Gwrthrychau i brintio â nhw (naturiol ac wedi'u cynhyrchu), paent trwchus mewn un lliw, pad sbwng, cynhwysydd bas, papur.



Gwneud printiau clir .

Oedolyn - Tynnu sylw at y dulliau mwyaf effeithiol o brintio. Dangos sut i ddefnyddio paent a gosod y gwrthrychau, os oes angen.

Adnoddau - Gwrthrychau i brintio â nhw (naturiol ac wedi'u cynhyrchu), paent trwchus mewn un lliw, pad sbwng, cynhwysydd bas, papur.



Ailadrodd patrymau.

Oedolyn - Arsylwi a thrafod os bydd patrymau'n ymddangos yn naturiol. Cyfeirio at batrymau yn yr amgylchedd e.e. papur lapio, llenni, carpedi, dillad, papur wal.

Adnoddau - Gwrthrychau i brintio â nhw (naturiol ac wedi'u cynhyrchu) paent trwchus mewn un lliw, pad sbwng, cynhwysydd bas, papur.



Gwneud patrymau gan ddefnyddio amrywiaeth gynyddol o liwiau a phrintiau.

Oedolyn - Annog y plentyn i archwilio printio drwy ddefnyddio dau liw.

Adnoddau - Gwrthrychau i brintio â nhw (naturiol ac wedi'u cynhyrchu), paent trwchus mewn un lliw, pad sbwng, cynhwysydd bas, papur.



CAMAU DATBLYGU—PRINTIO (2)

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU

Gwneud bloc printio gan ddefnyddio llinyn.

Oedolyn - Dangos sut i wneud bloc printio gan ddefnyddio llinyn wedi'i osod ar floc. Yn helpu'r plentyn i wneud ei floc ei hun ac i brintio.

Adnoddau - Llinyn, bloc/cerdyn, glud.



Dewis o amrywiaeth eang o ddefnyddiau i wneud bloc printio ei hun.


Oedolyn - Annog y plentyn i wneud ei floc printio ei hun drwy ddewis o amrywiaeth eang o ddefnyddiau.

Adnoddau - Adnoddau gweithdy.



Printiau rhiciog.
Gwneud rhigolau mewn bloc printio i greu bloc printio ei hun.

Oedolyn - Dangos sut i wneud rhigolau mewn bloc printio.
Adnoddau - 'Pressprint', pensiliau miniog.




Gwneud stensil.
Creu stensil a stensil masgio.

**D.S NID TEMPLEDI/STENSILIAU
A GYNHYRCHWYD YMLAEN
LLAW**

Oedolyn - Dangos sut i wneud ei stensil **ei hun** drwy dorri neu rwygo. Helpu'r plentyn i wneud ac i ddefnyddio'i stensil ei hun gan ddabio paent o fewn y stensil neu o'i amgylch.

Adnoddau - Papur/cerdyn/siswrn, paent, sbwng.



Trafod dulliau o brintio a ddefnyddir gan artistiaid eraill (Y Cwricwlwm Cymreig).

Oedolyn - Annog y plentyn i **drafed** gan ganolbwyntio ar y modd y mae artistiaid eraill yn defnyddio paent.

Adnoddau - Enghreifftiau o waith artistiaid (gan gynnwys artistiaid o Gymru) - i'w cael gan y Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion, delweddau oddi ar y rhyngwyd, llyfrau celf a.y.y.b., e.e. Laura Ashley.



Delweddau gan Laura Ashley.

ATEGU SGILIAU PEINTIO - CYMYSGU LLIWIAU (1)

GWEITHGAREDDAU

Archwilio amrywiaeth eang o wrthrychau lliwgar a chasgliadau o wrthrychau lliwgar.

Cyfateb lliwiau'r gwrthrychau yn yr amgylchedd i siartiau/cardiau paent.

Cael profiad o gymysgu dau liw ar arwyneb.

Cael profiad o gymysgu dau liw â dwylo.

Cael profiad o gymysgu dau liw gan ddefnyddio chwistrellwyr planhigion.

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU

Oedolyn - Darparu casgliad o wrthrychau lliwgar ac annog y plentyn i'w didoli. Trafod y gwahanol liwiau a'r arlliwiau.

Adnoddau - Casgliad o fotymau, rhubanau, plu, gwlân, ffabrigau.

Oedolyn - Creu cyfleoedd i'r plentyn gymharu lliwiau yn ei hamgylchedd e.e. defnyddio siart/cerdyn paent gwyrdd i gael hyd i'r liw sy'n cyfateb i liw dail a gasglwyd.

Adnoddau - Siartiau/cardiau paent o siopau, yr amgylchedd ehangach e.e. dan do/yn yr awyr agored.

Oedolyn - Annog y plentyn i ddefnyddio dwylo a bysedd i beintio ac i gymysgu paent ar arwyneb y gellir ei sychu. Helpu'r plentyn i roi papur ar baent i wneud print.

Adnoddau - Paent parod - coch, melyn, glas, du a gwyn; taflen A3 gwyn wedi'i lamineiddio.

Oedolyn - Annog y plentyn i ddewis dau liw, peintio'r ddwy law â phaent o wahanol liw a rhwbio dwylo gyda'i gilydd. Annog y plentyn i sylwi ar y lliw'n newid ac i wneud printiau ar bapur.

Adnoddau - Paent trwchus - coch, melyn, glas, du a gwyn, papur.

Oedolyn - Annog y plentyn i archwilio cymysgu lliwiau yn yr awyr agored.

Adnoddau - Chwistrellwyr planhigion yn cynnwys dŵr â lliw (1 liw sylfaenol ym mhob un), taflenni mawr o bapur gwyn/ffabrig.



ATEGU SGILIAU PEINTIO - CYMYSGU LLIWIAU (2)

GWEITHGAREDD

Cael profiad o gymysgu lliwiau gan ddefnyddio cerbydau ag olwynion.

Cael profiad o gymysgu lliwiau gan ddefnyddio defnyddiau eraill.

Cael profiad o gymysgu lliwiau gan ddefnyddio rholeri paent.

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU


Oedolyn - Annog y plentyn i sylwi ar liwiau'n newid wrth i olion y teiars groesi'i gilydd ar y papur.

Adnoddau - Paent mewn dau liw sylfaenol, pad sbwng mewn cynhwysydd bas, darn hir o bapur wal, cerbydau priodol ar olwynion.



Oedolyn - Annog y plentyn i archwilio cymysgu lliwiau â defnyddiau eraill.

Adnoddau - Chwarae â dŵr, toes, seloffen lliw, technoleg bwyd (jeli, siwgr eising).



Oedolyn - Annog y plentyn i archwilio.

Adnoddau - Paent mewn dau liw sylfaenol, papur, rholeri paent.



SYNIADAU AR GYFER GWEITHGAREDDAU - TECHNEGAI ERAILL

Cael profiad o ddefnyddio amrywiaeth o frwshys confensiynol ac anghonfensiynol.

Oedolyn - Annog y plentyn i ddefnyddio paent mewn un liw a gwahanol frwshys. Gofyn cwestiynau fel "Fedrwn chi wneud llinell denau/drwchus?" "Fedrwn chi wneud dot/dab?" "Fedrwn chi wneud llinell syth/tonnog?"

Adnoddau - Amrywiaeth o frwshys, paent un liw, papur.



Cael profiad o ddefnyddio'r dechneg o rwbio i greu print.

Oedolyn - Darparu gwrthrychau a'r defnyddiau priodol e.e. creonau cwyr. Annog y plentyn i roi papur dros wrthrych a chreu rhwbiadau. Symud ymlaen i gynnwys rhwbiadau mewn gwaith amlgyfrwng.

Adnoddau - Gwrthrychau o'r tu allan/dan do, papur, creonau cwyr, inc, adnoddau celf eraill.



Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

ATEGU SGILIAU PEINTIO - YSGOGI (1)

Defnyddio gwrthrych, arteffact neu syniad i ysgogi'r plant, gan roi ffocws i waith celf.
(Gofalwch fod y plentyn wedi cael digon o brofiad o gymysgu paent cyn cyflwyno'r gweithgareddau a ganlyn.)


GWEITHGAREDDAU

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU

Peintio gan ddefnyddio'r dychymyg.

Oedolyn - Rhoi cyfle i'r plentyn beintio gan ddefnyddio'r dychymyg. Annog, canmol a gwerthfawrogi gwreiddioldeb.


Adnoddau - Adnoddau gwaith celf.



Tynnu llun/peintio drwy sylwi ar wrthrych(au) penodol (bywyd llonydd).

Oedolyn - Annog y plentyn i edrych yn ofalus ar wrthrych ac yna dewis a chymysgu paent o'r un lliwiau. Darparu gwrthrychau sy'n cynyddu o ran cymhlethdod.


Adnoddau - Gwrthrychau i'w hysgogi e.e. **un** genhinen Pedr; bowlen o ffrwythau; paent - glas, melyn, coch a gwyn; palet/plât.



Tynnu llun/peintio drwy sylwi ar wrthrych(au) penodol (bywyd).

Oedolyn - Annog y plentyn i edrych yn ofalus ac i gynrychioli'r hyn a welant.

Adnoddau - Gwrthrychau i'w hysgogi e.e. ffrind, oedolyn a.y.y.b.




Peintio o'r cof e.e. teulu, llefydd cyfarwydd, digwyddiadau arbennig.

Oedolyn - Rhoi cyfle i'r plentyn beintio o'r cof.

Helpu'r plentyn i gofio. Annog, canmol a gwerthfawrogi gwreiddioldeb.

Adnoddau - Adnoddau gwaith celf.



ATEGU SGILIAU PEINTIO - YSGOGI (2)

Defnyddio gwrthrych, arteffact neu syniad i ysgogi'r plant, gan roi ffocws i waith celf.
(Gofalwch fod y plentyn wedi cael digon o brofiad o gymysgu paent cyn cyflwyno'r gweithgareddau a ganlyn.)

GWEITHGAREDDAU

Peintio gan ddefnyddio'r dychymyg - ymateb i rywbeth sy'n ei hysgogi.

Trafod sut y mae artistiaid eraill yn cael eu hysgogi mewn ffyrdd gwahanol.

Trafod, archwilio a pheintio yn arddull arlunydd.

D.S. Copïo'r dechneg, nid y llun.

Cael profiad o amrywiaeth o lyfrau stori yn gysylltiedig â gwaith celfyddydol.

CYMORTH GAN OEDOLYN / ADNODDAU

Oedolyn - Ysgogi'r plentyn drwy ddefnyddio e.e. cerdd, darn o gerddoriaeth, profiad neu gwestiwn. "Peintiwch sut y mae hapusrwydd/y gerddoriaeth yn gwneud i chi deimlo"/"Peintiwch y gwynt" (ar ôl cael profiad ohono!).

Adnoddau - Adnoddau gwaith celf, llyfrau barddoniaeth, cerddoriaeth, a.y.y.b.

Oedolyn - Annog y plentyn i **draford** gan ganolbwyntio ar y modd y mae arlunwyr eraill yn cael eu hysgogi mewn ffyrdd gwahanol.


Adnoddau - Gwaith celfyddydol gan gynnwys portreadau, tirluniau, bywyd llonydd. (**Gweler y daflen amgaeedig.**)

Oedolyn - Trafod y darlun a rhoi cyfle i'r plentyn archwilio gwahanol dechnegau e.e. pwyntiliaeth Seurat - (dotiau o baent). Dethol gwaith gwreiddiol i'w hysgogi ac annog y plentyn i beintio yn yr arddull hwnnw.


Adnoddau - Print o waith gwreiddiol, gwrthrychau i'w hysgogi, adnoddau gwaith celf (cyfryngau sy'n addas ar gyfer yr arddull).

Oedolyn - Rhannu a mwynhau'r llyfr gyda'r plentyn. Ei helpu i archwilio delweddau ar y we drwy ddefnyddio peiriannau chwilio. Creu arddangosfeydd yn yr ystafell ddosbarth.

Adnoddau - Amrywiaeth eang o lyfrau stori e.e. Katie's Picture Show, Camille and the Sunflowers, Picasso and the Girl with a Ponytail, ABC of Art.



Delwedd gan Turner Mmewnosodiad gan Van Gogh



Delwedd gan Seurat.

